Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.6 Amrywiaeth mewn gwirfoddoli

Beth yw amrywiaeth?

Mae mudiad amrywiol yn un sy'n gwerthfawrogi gwahaniaethau. Mae'n cydnabod bod pobl sydd â gwahanol gefndiroedd, sgiliau, agweddau meddwl a phrofiadau yn dod â syniadau a chanfyddiadau newydd. Dylai mudiadau hyrwyddo a defnyddio'r gwahaniaethau hynny er mwyn peri i'w gwasanaethau fod yn berthnasol ac yn hawdd mynd atynt. Bydd mudiad amrywiol yn gwneud defnydd o'r ystod ehangaf posibl o safbwyntiau a phrofiadau, fel y bydd yn gallu gwrando ar ei ddefnyddwyr, ei staff, ei wirfoddolwyr, ei bartneriaid a'i gefnogwyr ac ymateb i newidiadau yn eu hanghenion.

Mae Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD) yn disgrifio'r broses o reoli amrywiaeth fel a ganlyn:

> 'Mae'r broses o reoli amrywiaeth wedi'i seilio ar y cysyniad y dylid gwerthfawrogi pobl fel unigolion am resymau sy'n ymwneud â buddiannau busnes, yn ogystal â rhesymau moesol a chymdeithasol. Mae'n cydnabod bod pobl o wahanol gefndiroedd yn gallu cyfrannu syniadau a chanfyddiadau newydd a all beri i'w waith gael ei wneud yn fwy effeithlon a gwella ei gynhyrchion a'i wasanaethau.
>
> Drwy reoli amrywiaeth yn llwyddiannus, caiff mudiadau fodd i feithrin creadigedd ac i arloesi a thrwy hynny ddefnyddio gallu a fu o'r golwg er mwyn tyfu a dod yn fwy cystadleuol'.
>
> *Managing diversity - papur safbwynt CIPD, 1996*

Mae'r CIPD yn egluro bod camau effeithiol i reoli amrywiaeth yn gallu bod o gymorth i wrthweithio rhagfarn yn erbyn llawer math o wahaniaethau personol, er enghraifft: cymhwyster academaidd neu alwedigaethol, acen, oed, cyfrifoldebau gofalu, tarddiad ethnig, rhyw, anawsterau dysgu, statws priodasol, ableddau corfforol a meddyliol, ymlyniad gwleidyddol, salwch meddwl blaenorol, crefydd, tueddfryd rhywiol, collfarnau sydd wedi'u disbyddu neu sy'n amherthnasol a bod yn aelod, neu beidio, o undeb llafur.

Manteision amrywiaeth

Ceir nifer mawr o fanteision o fod â 'gweithlu' amrywiol o wirfoddolwyr. Er enghraifft, bydd eich mudiad:

- yn fwy croesawus yng ngolwg gwirfoddolwyr, grwpiau cleientiaid a'r cyhoedd
- yn fwy cynrychioladol o gymdeithas yn gyffredinol

- yn fwy galluog i ymateb i anghenion eich cymuned leol
- yn cael budd o'r syniadau a dulliau gweithredu newydd a greir gan rai o wahanol gefndir, diwylliant, rhyw, oed a safbwynt
- yn denu mwy o gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau

Creu mwy o amrywiaeth ymysg eich gwirfoddolwyr

Rhaid cymryd camau pendant a phenodol i recriwtio tîm mwy amrywiol o wirfoddolwyr – er mai peth da yw llunio datganiad ar amrywiaeth fel cam cyntaf, nid yw hynny'n ddigon ar ei ben ei hun. Pa ieithoedd yr ydych yn eu defnyddio? Pa argraff y mae'ch deunydd cyhoeddusrwydd yn ei rhoi? A yw'r negeseuon yn rhai cynhwysol? A ellir gweld amrywiaeth yn y delweddau yr ydych yn eu defnyddio? Gallech hefyd ddewis:

- ystyried sut yr ydych yn hysbysebu am wirfoddolwyr ac yn eu recriwtio – Ym mhle rydych yn hysbysebu? Sut rydych yn hysbysebu? Pa fath o iaith yr ydych yn ei ddefnyddio?
- ystyried y trefniadau ar gyfer eich gwirfoddolwyr – a ydynt yn galluogi pawb i gymryd rhan? Er enghraifft:
  - wrth drefnu cyfarfodydd a gweithgareddau eraill, a ydych wedi ystyried beth yw'r adeg fwyaf cynhwysol, mynediad i bobl anabl, cyfieithwyr gan gynnwys rhai ar gyfer iaith arwyddion, trefniadau ystyriol o blant, os ydych yn darparu bwyd – a yw'n addas?
  - a allwch dalu treuliau?
  - faint o amser y mae disgwyl i wirfoddolwyr ei roi? A allwch addasu'r cyfle i wirfoddoli yn ôl yr amser y gallant ei roi?
  - a ydych yn ystyried y gwahanol wyliau crefyddol wrth gynllunio?
  - a ydych yn cynnig dewis o ddulliau i gymryd rhan?
  - mae'n iawn targedu rhai penodol wrth recriwtio, ond ceisiwch beidio â phenodi ar sail 'symboleiddiaeth'
- gofalu eich bod yn croesawu'r holl wirfoddolwyr ac yn gwneud trefniadau da ar gyfer eu sefydlu. Ystyriwch gyflwyno cynllun mentora neu gyfeillio. A oes gennych 'gytundebau gwirfoddolwr' a 'disgrifiadau o waith gwirfoddol' ac a ydynt yn addas i'r holl wirfoddolwyr yr ydych yn ceisio eu denu?
- gofyn i'r gwirfoddolwyr a oes arnynt angen unrhyw gymorth ychwanegol neu addasiadau i gyfarpar, e.e. ffonau testun (mae minicom yn enw arall arnynt), chwyddwyr sgrîn, ffonau â botymau mawr neu giard bysellfwrdd.
- gofalu bod eich gweithdrefnau mor anffurfiol ag sy'n bosibl (gall rheolau biwrocrataidd fod yn rhwystr mawr rhag cymryd rhan).
- rhoi pob cyfle i wirfoddolwyr gymryd rhan wrth ddatblygu'r mudiad a'i strategaethau ar amrywiaeth drwy ofyn iddynt am eu syniadau.

Mwy o wybodaeth

Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu
Ffôn: 020 8612 6200
www.cipd.co.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7AB
Elusen Gofrestredig *1061364*

Ffôn: 01570 423232 gen@cavo.org.uk
Ffacs: 01570 422427 www.cavo.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:04/12/2009

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WCVA
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk